

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 16.02.2026

Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed

Yn Bresennol: Cllr. Amy Evans (Cadair.), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies, a'r Cyng. Julian Evans.

Clerc: Enid Davies

Cyfieithydd: Ymddiheuriad

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones, Cyng. Aled Jones a'r Cyng. Robin Bowen.

Croesawodd y Cyng. Amy Evans aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

91. Datgelu Buddianau Personol:

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.

92. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19.01.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.

93. Materion i'w hadrodd

a. Materion Priffyrdd: - Nodwyd bod bae llwytho wedi'i osod erbyn hyn y tu allan i Siop Bentref a'r Swyddfa Bost Cynwyl Elfed.

b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed - gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.

94. Gohebiaeth.

Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.

95. Cynllunio

Ni dderbyniwyd ymgynghoriadau cynllunio newydd.

Eitemau Cynllunio byw -

PL/9802 - ar waith - dim byd newydd i'w adrodd.

PL/10013-Datblygiad preswyl - tir oddi ar Surgeon Street. Ymateb I'r Ymgynghoriad Statudol (Rheolwr Blaen-Cynllunio, Cyngor Sir Gâr) - Mae'r llythyr yn nodi bod cynllunio llawn yn bodoli ar y rhan hon o dir ar gyfer 13 o anheddau. Mae Polisi AH2 yn caniatáu safleoedd eithriadau lle maent yn darparu tai fforddiadwy a fydd yn diwallu angen lleol gwirioneddol a lle maent yn cyd-fynd â meini prawf y polisi. Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, paragraff 4.2.23 - nododd Rhan o'r meini prawf "bod yn rhaid annog dwyseddau uwch ar safleoedd yng nghanol trefi a safleoedd eraill sydd â chysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus da". Penderfynodd y Cyngor ysgrifennu at Hwb Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin ac at y Rheolwr Blaen Cynllunio i roi gwybod iddynt nad y sefyllfa wedi'i ddogfennu'n dda dros sawl blwyddyn mewn gohebiaeth i'r Cyngor Sir, yn arwain at cyfarfod cyhoeddus a chyfarfod safle gyda'r Rheolwr Diogelwch Ffydd a'r Peiriannydd Diogelwch Ffydd yn 2022.

Adran 106. Esboniodd y Cyng. BD, ei bod yn angenrheidiol i bartion sydd â diddordeb wneud cais am unrhyw arian o dan cynllun Adran 106 er budd yr ardal cyn i'r Eitem Gynllunio cael ei drafod yn y Cyfarfodydd Cynllunio. Penderfyndodd y Cyngor gyfarwyddo'r clerc i ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin, Hwb Gynlluni, yn gofyn am i unrhyw arian mewn perthynas â chynllun Adran 106 gael ei neilltuo i'w ddefnyddio gan sefydliadau lleol i wella cyfleusterau yng Nghynwyl Elfed.

96. Taliadau a Chyllid

(a) Taliadau a Chyllid

Taliadau

| | |
|---|---------|
| • Maria Thomas Magic Mops - Ionawr 2026 | £230.00 |
| • ME Davies Cyflog Clerc 01/2026 | £309.90 |
| • EDF Trydan 01.01.26-31.01.2026 | £ 51.30 |

Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod. Cynigiwyd gan BD ac eiliwyd gan JE.

ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 31 Ionawr 2025 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

97. Materion Priffyrdd:**Materion Priffyrdd adroddwyd ar 16.02.26**

- Penheol Penlanchwilor - Twll yn y ffordd wedi'i lanw ond mae darn miniog sy'n rhan o'r draen yn sticio allan, mae yna rhai cerbydau a'u teiars wedi'i ddifetha.*
- Penrhiwcrnryfn - tipyn o bryder am sawl man ar y ffordd rhwng Cynwyl Elfed a Chyffordd Penrhiwcrnryfn. Mae ochrau'r ffordd wedi erydu a malu a'r ffordd wedi culhau fel canlyniad. Mae hyn yn bryder Mawr enwedig yn y darn lle rliodd lori bant o ymyl y ffordd. Dywedodd y Cyng. BD bod y mater hyn mewn law - roedd wedi ymweld â'r safle gyda Peiriannydd Ffyrdd. Mae'r Cyngor Sir yn monitro'r ffordd. Bydd arwyddion rhybudd fwy clir yn cael eu gosod er mwyn gwneud gyrwyr yn fwy ymwybodol o'r gyffordd.*
- Rhiw Pannau - Draeniau a gwteri'n llawn ac yn cwmpo mewn.*
- Cwm Hagar - Ffordd yn dal i fod mewn cyflwr Gwael, cracio a suddo. Dywedodd y Cllr. BD wrth y cyfarfod roedd peirianwyr wedi asesu'r safle yn ystod yr wythnos ddiwethaf a bod materion mewn llaw.*
- Pont Esgair a'r cwlfer- Dywedodd y Cyng. Bryan Davies bod y mater mewn llaw.*
- Adroddwyd i'r cyfarfod, yn ystod adeg roedd y ffyrdd ar gau'n diweddar a'r bws yn cael ei ddargyfeirio o'i lwybr arferol, nad oedd unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer y bobl sy'n dibynnu ar y bws ac sy'n byw ar hyd y ffordd yr effeithiwyd arni. Mae'r clerch i ysgrifennu at Adran Drafnidiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am ystyriaeth i'r bobl yr effeithir arnynt gan Broblemau Trafnidiaeth sy'n deillio o gau ffyrdd yn y dyfodol.*

98. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau—**• Cyfleusterau Cyhoeddus:**

- Mae angen clirio'r ardal o amgylch y Mesurydd Dŵr er mwyn cael mynediad at y mesurydd a'i ddarllen. Y clerch i gysylltu â swyddog lleol Dŵr Cymru ynglŷn â gwneud y mesurydd dŵr yn fwy hygyrch.
- Mae dosbarthwr rholiau toiled newydd wedi'i dderbyn i gymryd lle'r dosbarthwr presennol sydd wedi'i dorri.
- Adroddodd y Cyng. JE fod problem barhaus gyda chiwbic rhif 1 i ddynion, gyda phenodau rheolaidd o'r llawr a'r wal yn cael eu dwyno. Glanhaodd sawl gwaith ar y penwythnos. Mae'r glanhawr wedi adrodd yn y gorffennol ei bod wedi bod yn cael anhawster cael gwared ar arogl ffaidd yn y ciwbicl hwnnw ac wedi gorfod glanhau'n ddwfn sawl gwaith ond mae'n parhau i ddigwydd. Y clerch i gysylltu â'r glanhawr i sicrhau bod ganddi gymorth gyda hyn os oes angen.

• **Cae Chwarae Bro Elfed:**

• Adroddodd y Cyng. AE fod pwyllgor y parc bellach yn cynnwys dau berson am y tro gan fod un swyddog ar absenoldeb mamolaeth. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ymhen tua phythefnos. Bydd y Cyng. AE yn hysbysu'r cleric a fydd yn trosglwyddo'r dyddiad i'r Cynghorwyr a bydd hefyd yn rhoi hysbysiad ar Fwrdd Hysbysiadau'r Cyngor.

• **Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed**

• Adroddodd y Cyng. ED fod noson Doniau Bro Lleol a drefnwyd gan y Pwyllgor Codi Arian ac a gynhaliwyd er mwyn codi arian ar gyfer y Neuadd wedi cael cefnogaeth dda gydag adborth cadarnhaol gan y rhai a fynychodd. Gwahoddwyd yr holl sefydliadau a grwpiau a oedd yn defnyddio'r Neuadd i ddarparu 5 munud o adloniant gan arwain at noson bleserus iawn. Codwyd y swm net o £813.50 o werthiant tocynnau a gwerthiant raffl.

99.Unrhyw Fater Arall.

- *Hyfforddiant* - Un Llais Cymru-ceisiadau am hyfforddiant gweminar am ddim - pedwar lle am ddim ar Gyfer pob modiwl gyda gostyngiad o 50% ar ôl defnyddio lleoedd am ddim.
- Modiwl 24 Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu - wedi'i archebu ar gyfer y Cyng. Elfed Davies a Delme Phillips ddydd Llun 02/03/26.
- Modiwl 4 - Deall Cyllid Llywodraeth Leol, Sylfaenol - i'w archebu ar gyfer y Cyng. Aled Jones ar 22/01/26.
- Modiwl 24 - Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu - i'w archebu ar gyfer y Cynghorwyr Elfed Davies a Delme Phillips - nos Lun 02/03/26 ac ar gyfer y Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Robin Bowen *ddydd Mercher 25/03/16. Rhoi dyddiadau eraill ar gyfer y Cyng. Julian Evans er mwyn iddo fynychu Modiwl 24.*

100. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **16 Mawrth 2026** am: **7:30** yr hwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30 awr.

.....
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

.....
Dyddiad.